Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Archwiliad o reolaethau alergenau a chamau archwilio perthnasol sydd heb eu cwblhau – Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Fynwy, 15 – 17 Gorffennaf 2025

## Rhagair

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth safonau a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, ac am sicrhau bod rheolaethau swyddogol sy'n seiliedig ar risg yn cael eu cynnal mewn sefydliadau busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Mae rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, sydd â'r nod o wirio cydymffurfiaeth busnesau bwyd, yn hanfodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Maent hefyd yn cyfrannu at ganlyniad strategol yr ASB, sef bod 'bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label'.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid o ddydd i ddydd.

Yng Nghymru, rhoddwyd y grym i'r ASB bennu safonau a monitro'r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a gynhelir gan awdurdodau lleol o dan Adran 12 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliad 7 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Mae'n ofynnol i'r ASB fonitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol o dan y ddeddfwriaeth hon a Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a gymathwyd (UE) 2017/625. Wrth ddatblygu ei threfniadau archwilio, mae'r ASB wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.

Yn ogystal ag asesu'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol yn erbyn gofynion cyfreithiol a chanllawiau statudol, mae'r broses archwilio hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arferion da ac i ddarparu gwybodaeth i lywio polisi'r ASB ar weithredu a gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae rhaglenni archwilio'r ASB yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â gofynion Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a gymathwyd (UE) 2017/625 a'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid o fewn y Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gan Awdurdodau Lleol (y Cytundeb Fframwaith). Cynhaliwyd asesiadau hefyd yn erbyn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2021 (FLCoP) ynghyd â chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddir yn ganolog, gan gynnwys Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2021.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ffurf copi caled gan Dîm Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio'r ASB, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 4, Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, ac yn electronig ar wefan yr ASB.

### Cynnwys

1.0 Cyflwyniad (gan gynnwys Cefndir a Chwmpas y rhaglen archwilio)

2.0 Crynodeb gweithredol

3.0 Methodoleg archwilio

4.0 Canfyddiadau’r archwiliad

- Trefnu a rheoli
- Swyddogion awdurdodedig
- Arolygiadau, cofnodion ac adroddiadau ar safleoedd bwyd
- Arolygu a samplu bwyd
- Cwynion am fwyd, bwyd anifeiliaid a safleoedd bwyd
- Gorfodi
- Monitro mewnol
- Camau archwilio perthnasol sydd heb eu cwblhau

Atodiad A – Cynllun archwilio

Atodiad B – Cynllun gweithredu ar gyfer rheoli alergenau

# 1.0 Cyflwyniad

**Cefndir**

1.1 Mae archwilio’r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhelir gan awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau’r ASB i wella diogelwch a hyder defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae gweithredu rheolaethau swyddogol sy’n seiliedig ar risg mewn busnesau bwyd ar amlderau priodol yn seiliedig ar risg yn hanfodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a sicrhau diogelwch bwyd i ddefnyddwyr.

1.2 Yn dilyn pandemig COVID-19, o 1 Ebrill 2023 ymlaen, dylai awdurdodau lleol fod yn cynllunio i wneud y canlynol:

- cynnal ymyriadau priodol ar gyfer sefydliadau sydd yn ôl yn y rhaglen ymyriadau arferol yn unol â’r amlderau a nodir yn yr FLCoP
- gweithio tuag at ail-alinio â’r darpariaethau a nodir yn yr FLCoP o 1 Ebrill 2023 ymlaen, gan ddefnyddio’r ystod lawn o hyblygrwydd a gynigir eisoes gan yr FLCoP. Gellir dod o hyd i’r hyblygrwydd hwn, gan gynnwys eithriadau, ym Mhennod 4 o’r FLCoP a Phennod 4 o Ganllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)
- parhau i arfer dull sy’n seiliedig ar risg ar gyfer y gofynion a nodir yn yr FLCoP, a hynny’n seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael

1.3 Rhan allweddol o gylch gwaith yr ASB yn ei rôl fel Awdurdod Cymwys yw rhoi sicrwydd i randdeiliaid a’r cyhoedd fod awdurdodau bwyd, fel awdurdodau lleol, yn darparu ac yn gweithredu’n gywir unrhyw ddeddfwriaeth, cyngor a chanllawiau a gyhoeddir mewn perthynas â’r gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae’r rhaglen archwilio hon, ar y cyd â’r arolygon perfformio chwe misol, yn darparu elfen allweddol o fframwaith sicrwydd cyffredinol yr ASB.

1.4 Yng Nghymru, rhoddwyd y grym i’r ASB bennu safonau a monitro’r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a gynhelir gan awdurdodau lleol o dan Adran 12 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliad 7 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

1.5 Mae’r Cytundeb Fframwaith ar waith awdurdodau lleol o orfodi cyfraith bwyd yn nodi’r trefniadau y mae’r ASB yn eu defnyddio i fonitro ac archwilio gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol i helpu i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth effeithiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

**Cwmpas y rhaglen archwilio**

1.6 Mae’r rhaglen hon yn cynnwys cyfres o archwiliadau ledled Cymru i asesu cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr a’r risg i ddefnyddwyr â gorsensitifrwydd i fwyd, yn ogystal ag adolygu unrhyw gamau archwilio perthnasol sydd heb eu cwblhau yn dilyn archwiliadau blaenorol. Mae’r archwiliadau’n asesu a yw awdurdodau lleol yn cynnal ymyriadau sy’n cynnwys asesiadau o alergenau yn seiliedig ar raglen o ymyriadau sy’n unol â’r FLCoP.

1.7 Gwnaeth yr asesiad archwilio ystyried y canlynol:

- cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau safonau bwyd
- yr adnoddau sydd ar gael i’r gwasanaeth a’r modd o flaenoriaethu gweithgareddau ar sail risg, gan gynnwys asesu busnesau bwyd newydd
- awdurdodiad a chymhwysedd swyddogion
- ymyriadau (rhai sydd wedi’u rhaglenni a rhai ymatebol) a gorfodi
- polisi, gweithdrefnau a rhaglen samplu
- monitro mewnol
- unrhyw faterion eraill yn ymwneud â rheoli alergenau
- camau archwilio sydd heb eu cwblhau – adolygu unrhyw gamau perthnasol sydd heb eu cwblhau o archwiliadau blaenorol, a diweddaru cynllun gweithredu’r awdurdod lleol yn sgil archwiliad yn unol â hynny

1.8 Fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r rhaglen archwilio, ymgysylltodd yr ASB â rhanddeiliaid perthnasol a llunio cynllun archwilio. Mae hwn wedi’i atodi yn Atodiad A.

# 2.0 Crynodeb gweithredol

2.1 Archwiliwyd trefniadau Cyngor Sir Fynwy ar gyfer cynnal rheolaethau bwyd swyddogol sy’n gysylltiedig ag alergenau. Roedd hyn yn cynnwys gwiriad go iawn mewn sefydliad bwyd er mwyn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol, ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, er mwyn gwirio bod gweithredwr y busnes bwyd yn cydymffurfio â’r gofynion deddfwriaethol. Roedd cwmpas yr archwiliad hefyd yn cynnwys asesiad o drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol yr awdurdod, a gwaith mewnol i fonitro gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd.

2.2 Y Cyfarwyddwr Strategol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd oedd â’r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd o fewn yr Adran Diogelu’r Cyhoedd. Cyfrifoldeb Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd oedd rheoli o ddydd i ddydd.

2.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cynllunio gwasanaeth ar waith, ynghyd â systemau ar gyfer adolygu perfformiad. Roedd dogfennau cynllunio gwasanaethau’n cynnwys rhywfaint o’r wybodaeth a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Gwasanaethau, ond nid yr holl wybodaeth, gan gynnwys y gofynion i gyfeirio at raglen samplu safonau bwyd sy’n seiliedig ar risg ac adolygu gwaith y flwyddyn flaenorol yn drylwyr.

2.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithiol gan swyddogion cymwys a oedd wedi'u hawdurdodi'n briodol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Byddai'r awdurdod yn elwa o ddarparu ychydig bach yn fwy o adnoddau swyddogion ynghyd â system ffurfiol ar gyfer nodi anghenion hyfforddi swyddogion, a hynny'n seiliedig ar asesiadau o anghenion hyfforddi unigol.

2.5 Cadarnhaodd gwiriadau o'r gronfa ddata fod ôl-groniad bach o sefydliadau a oedd yn hwyr yn cael ymyriad safonau bwyd, a bod gwall gweinyddol, sydd bellach wedi'i ddatrys, wedi atal y rhaglen rhag cael ei chyflawni'n llawn yn unol â sgôr risg safonau bwyd. Roedd yr awdurdod wedi bwriadu mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn llawn o fewn rhaglen y flwyddyn nesaf.

2.6 Dangosodd cofnodion arolygu fod asesiadau o gydymffurfiaeth busnesau â rheolaethau alergenau wedi cael eu cynnal yn ystod ymyriadau safonau bwyd, a bod ansawdd yr asesiadau hyn yn amrywiol. Nid oedd digon o wybodaeth ar gael ar rai agweddau ar gofnodion ymyriadau i ddangos bod asesiad trylwyr wedi'i gynnal gan swyddogion, yn ddirybudd, yn unol â'r FLCoP. Ar y cyfan, roedd sgorio risg, ailymweliadau a chamau dilynol yn cael eu cyflawni fel sy'n ofynnol.

2.7 Yn gyffredinol, byddai'n fuddiol pe bai adroddiadau safonau bwyd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl yr FLCoP.

2.8 Yn gyffredinol, roedd cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd wedi digwydd yn unol â'r FLCoP, fodd bynnag, ni chymerwyd unrhyw samplau safonau bwyd ac nid oedd cynllun samplu safonau bwyd sy'n seiliedig ar risg ar waith.

2.9 Roedd yr awdurdod wedi defnyddio dulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol i sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio'n well â deddfwriaeth rheoli alergenau. Lle'r oedd camau gorfodi wedi'u cymryd, roeddent yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, dylid bod wedi cymryd camau ychwanegol yn unol â'r Polisi Gorfodi a'r FLCoP.

2.10 Roedd tystiolaeth o rywfaint o fonitro mewnol o faterion safonau bwyd, gan gynnwys rheoli alergenau, a maes o arfer dda mewn perthynas â monitro corfforaethol. Byddai'n fuddiol pe bai maint y gweithgaredd monitro mewnol ansoddol yn cael ei ehangu i gynnwys meintiau samplau mwy a meysydd darparu gwasanaethau ychwanegol.

## 3.0 Methodoleg archwilio

3.1 Cafodd yr awdurdod lleol lythyr cyn yr archwiliad a oedd yn cynnwys holiadur cyn yr ymweliad ynghyd â manylion dogfennau angenrheidiol i asesu i ba raddau y cwblhawyd yr argymhellion a oedd heb eu cyflawni'n flaenorol.

3.2 Cafodd yr awdurdod lleol hefyd gopi o unrhyw adroddiadau archwilio/cynlluniau gweithredu perthnasol, a gofynnwyd iddo ddarparu tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed ar gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni.

3.3 Yna, cynhaliwyd archwiliad strwythuredig ar y safle, yn cynnwys ymweliad gwirio â busnes lleol a chyfarfodydd gyda Phennaeth y Gwasanaeth, swyddogion arweiniol yr awdurdod lleol a staff perthnasol eraill ynghylch y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol, yn ogystal ag archwiliad o ddetholiad o gofnodion ar reolaethau swyddogol bwyd.

3.4 Cynhaliwyd yr archwiliad rhwng 15 ac 17 Gorffennaf 2025. Cymerodd yr elfen ar y safle o’r archwiliad 2½ diwrnod gwaith.

3.5 Cafodd yr awdurdod lleol yr adroddiad archwilio ysgrifenedig hwn a chynllun gweithredu archwilio wedi’i ddiweddaru, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr ASB.

# 4.0 Canfyddiadau’r archwiliad

### 4.1 Trefnu a rheoli

4.1.1 Roedd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yn goruchwylio’r gwaith gorfodi cyfraith bwyd. Mae Cyfansoddiad yr awdurdod yn amlinellu ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. O dan y Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau ar y rhan fwyaf o faterion gweithredol mewn perthynas â bwyd wedi’u dirprwyo i’r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

4.1.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ‘Cynllun Gwasanaeth Tîm Bwyd Sir Fynwy 2025/2026’. Nid oedd y Cynllun Gwasanaeth wedi cael cymeradwyaeth yr Aelod Cabinet eto.

4.1.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o’r wybodaeth a amlinellwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys proffil o’r awdurdod, cwmpas y gwasanaeth a siart o strwythur y sefydliad ar gyfer adran Diogelu’r Cyhoedd. Roedd yr amserau gweithredu, y mannau darparu gwasanaeth, a nodau ac amcanion y gwasanaeth wedi’u nodi’n glir.

4.1.4 Roedd y cynllun gwasanaeth yn dangos bod tua 1,516 o sefydliadau bwyd yn Sir Fynwy. Roedd proffil y busnesau wedi’i ddarparu yn ôl y math o sefydliad, ac roedd nifer yr ymyriadau dyledus a oedd wedi’u cynllunio, yn ôl sgôr risg, wedi’i darparu.

4.1.5 Roedd y targedau a’r blaenoriaethau ar gyfer safonau bwyd yn cynnwys ymrwymiad i gyflawni’r holl arolygiadau/ymyriadau yr oedd gofyn eu cynnal mewn sefydliadau risg uchel, ganolig ac isel, yn unol â’r amserlen ofynnol yn yr FLCoP neu’n gynt na hynny, yn seiliedig ar y risg hylendid bwyd.

4.1.6 Mae nifer disgwyliedig yr ailymweliadau yn ystod y flwyddyn yn rhan ofynnol o’r rhaglen ymyriadau, ond ni chafodd ei gynnwys. Dylid cynnwys hyn yn y cynllun gwasanaeth.

4.1.7 Roedd blaenoriaethau a thargedau ymyrryd yr awdurdod, a oedd wedi’u hamlinellu yn y Cynllun Gwasanaeth, yn seiliedig yn bennaf ar risg hylendid bwyd. Mewn rhai achosion, lle’r oedd y risg safonau bwyd yn uwch, rhoddwyd gwybod i archwilwyr y byddai risg safonau bwyd yn cael blaenoriaeth.

4.1.8 Nid oedd yr wybodaeth a roddwyd am samplu safonau bwyd yn ddigon penodol, ac roedd diffyg manylder. Nid oedd yn cyfeirio at raglen safonau bwyd y flwyddyn gyfredol, ac nid oedd ychwaith yn cynnwys data ar nifer y samplau na’r mathau o samplau i’w casglu, na lefel yr adnodd sydd ei angen i gyflawni’r rhaglen.

4.1.9 Nodwyd yr adnoddau a oedd ar gael i gynnal gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth fel 5.5 swyddog cyfwerth ag amser llawn (CALl) ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. Amcangyfrifwyd bod angen 5.6 o swyddi CALl i gynnal y gwasanaeth, gan ddangos bod angen ychydig bach yn fwy o adnoddau i fodloni'r gofynion yn llawn.

4.1.10 Nid oedd y cynllun yn cynnwys amcangyfrif o'r galw tebygol am y gwasanaeth gorfodi bwyd, yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol, ac ni ddarparwyd amcangyfrifon ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu'r galw. Yn ogystal, nid oedd asesiad cyffredinol o'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr ystod lawn o reolaethau swyddogol ar fwyd yn erbyn y rheiny sydd ar gael ar hyn o bryd.

4.1.11 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am Bolisi Gorfodi'r awdurdod a'i ddull o ddatblygu staff. Yn ogystal, roedd yn pwysleisio'r angen i gynnal arolygiadau a raglennir y tu allan i oriau.

4.1.12 Cyfeiriwyd yn y cynllun at drefniadau ar gyfer monitro mewnol neu gynnal 'asesiad ansawdd' o'r gwasanaeth safonau bwyd trwy drefniadau adrodd meintiol. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai'r cynllun hefyd yn cynnwys disgrifiad byr o'r trefniadau monitro mewnol ansoddol ar gyfer y gwasanaeth safonau bwyd.

4.1.13 Nid oedd cyfanswm y costau o ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, gan gynnwys dadansoddiad o rai costau ansefydlog fel staffio, offer – gan gynnwys buddsoddi mewn TG – a theithio a chynhaliaeth, wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Ymhellach, dylid darparu gwybodaeth ynghylch y duedd o ran twf neu ostyngiad yn y gyllideb, cyfeiriad at y ddarpariaeth ariannol adrannol ar gyfer camau cyfreithiol a'r gyllideb ar gyfer samplu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.

4.1.14 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig yn dilyn adolygiad o gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol. Nodwyd nad oedd yr adolygiad yn cwmpasu pob targed a byddai'n elwa o gynnwys llawer o'r wybodaeth a adroddwyd yn fewnol drwy'r system adrodd chwarterol a blynyddol. Dylai hyn gynnwys ymyriadau safonau bwyd a gynhelir mewn busnesau â sgôr a rhai heb sgôr / busnesau newydd, nifer yr ailymweliadau, amseroldeb yr ymatebion i geisiadau am wasanaeth a nifer y samplau yn erbyn y rhaglen samplu safonau bwyd.

4.1.15 Yn yr un modd, dim ond drwy'r system adrodd fewnol y nodwyd amrywiadau o ran cyflawni'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth blaenorol a byddai'r rhain yn elwa o gael eu casglu mewn adran bwrpasol fel rhan o'r adolygiad o'r gwasanaeth o fewn y cynllun gwasanaeth. Nid oedd amrywiadau ar gyfer yr ymyriadau safonau bwyd risg isel a busnesau heb sgôr wedi'u nodi na'u hegluro fel sy'n ofynnol gan y canllawiau cynllunio gwasanaethau.

4.1.16 Roedd yr awdurdod wedi ymgorffori nifer o feysydd lefel uchel i'w gwella yn ei Gynllun Gwasanaeth, ond nid oedd y rhain yn mynd i'r afael yn benodol â meysydd lle'r oedd amrywiadau wedi digwydd, hynny yw ymyriadau safonau bwyd heb eu sgorio ac isel eu risg.

**Argymhellion**

4.1.17 Dylai'r awdurdod:

- (i) sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. Yn benodol, dylid darparu manylion eu blaenoriaethau a'u gweithgareddau samplu safonau bwyd sy'n seiliedig ar risg
- (ii) sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd
- (iii) sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran bodloni'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd mewn cynllun dilynol

[Erthyglau 5(1)(a) ac (e) o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; paragraff 2.3.3 o'r FLCoP]

**4.2 Swyddogion awdurdodedig**

4.2.1 Roedd Cynllun Dirprwyo Pwerau i Swyddogion yr awdurdod, a oedd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad yr awdurdod, yn rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Strategol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd weithredu bron pob dyletswydd mewn perthynas â gwasanaethau bwyd. Mae hyn yn cynnwys yr awdurdod dirprwyedig i awdurdodi swyddogion eraill. Fodd bynnag, rhoddwyd y p?er i gychwyn camau cyfreithiol i'r Prif Swyddog dros y Gyfraith a Llywodraethu.

4.2.2 Roedd gweithdrefn ddogfenedig wedi'i datblygu ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd yn seiliedig ar eu cymwysterau a'u profiad, ac roedd swyddog arweiniol ar gyfer safonau bwyd wedi'i benodi, a oedd â'r cymwysterau a'r profiad gofynnol ac a oedd yn gallu dangos gwybodaeth briodol.

4.2.3 Roedd y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn gynhwysfawr ac yn gywir ar y cyfan, gan gynnwys asesiad o gymhwysedd. Byddai'r weithdrefn yn elwa o un gwelliant yn unig mewn perthynas â rhestru'r swyddog awdurdodi cywir.

4.2.4 Roedd yr awdurdod wedi nodi, o fewn ei Gynllun Gwasanaeth, fod lefel yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau bwyd ychydig yn uwch na'r hynny sydd ar gael, sef diffyg o 0.1 swyddog CALl. Rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr fod yr awdurdod yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau o gynnal ei raglenni ymyrryd ac ymateb i geisiadau am wasanaeth wrth iddynt godi, gyda'r adnoddau a oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd gan yr awdurdod ôl-groniad bach o ymyriadau safonau bwyd, nid oedd yn bwriadu cynnal rhaglen o waith samplu safonau bwyd ar y pryd ac roedd angen iddo wella faint o fonitro mewnol ansoddol a oedd yn cael ei wneud. Felly, dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn cynyddu ei adnoddau ym maes gwasanaeth bwyd i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael yn y dyfodol i gyflawni ei rwymedigaethau'n llawn yn ôl y gyfraith ac yn unol â'r FLCoP.

4.2.5 Roedd darparu hyfforddiant i swyddogion yn ddibynnol ar swyddogion unigol yn nodi eu hanghenion eu hunain. Er bod rhywfaint o hyfforddiant perthnasol wedi'i ddarparu i swyddogion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oedd gan yr awdurdod system ffurfiol ar waith i nodi anghenion hyfforddi swyddogion, gan gynnwys asesiadau o anghenion hyfforddi unigol. Roedd yr awdurdod yn darparu cyfuniad o hyfforddiant mewnol ac allanol, ac yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd a gynigir gan raglen hyfforddi awdurdodau lleol yr ASB. Roedd yn ofynnol i bob swyddog gyflawni 10 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar faterion bwyd craidd yn unol â'r FLCoP. Mae'r awdurdod yn gallu ariannu hyfforddiant pan fo'r angen am hynny wedi'i nodi.

4.2.6 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion cymwysterau a hyfforddiant pum swyddog a oedd yn gyfrifol am gynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol. Roedd cofnodion yn cael eu cadw gan

yr awdurdod ar gyfer swyddogion yn system ffeiliau a ffolderi gyfrifiadurol y Cyngor.

4.2.7 Roedd pob swyddog wedi'i awdurdodi, yn unol â'i gymwysterau, ei hyfforddiant a'i brofiad. Roedd awdurdodiadau wedi'u llofnodi gan swyddog a oedd â'r awdurdod dirprwyedig ac yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth allweddol sy'n ofynnol ar gyfer cynnal yr amrywiaeth o reolaethau swyddogol angenrheidiol ar gyfer alergenau.

4.2.8 Roedd cymwysterau academaidd a chymwysterau perthnasol eraill ar gael i bob swyddog ac roedd pob un wedi derbyn yr isafswm o 10 awr o DPP ar faterion bwyd craidd sy'n ofynnol yn ôl yr FLCoP a pholisïau'r awdurdod ei hun, yn unol â'i ddyletswyddau. At hynny, roedd yr holl swyddogion wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r agweddau technegol ar y gwaith yr oeddent yn rhan ohono.

**Argymhellion**

4.2.9 Dylai'r awdurdod:

- (i) sicrhau bod ganddo nifer digonol o staff â chymwysterau a phrofiad addas fel bod modd cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol
- (ii) rhoi rhaglen ar waith sy'n sicrhau bod staff sy'n cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael hyfforddiant priodol ar sail eu hanghenion unigol a'r gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni

[Erthyglau 5(1)(e) a 5(4) o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; paragraff 3.8.1 o'r FLCoP]

**4.3 Arolygiadau, cofnodion ac adroddiadau ar safleoedd bwyd**

4.3.1 Rhoddodd yr awdurdod ddata cyn yr archwiliad a oedd yn cadarnhau bod 1,135 o fusnesau bwyd yng nghronfa ddata sefydliadau safonau bwyd yr awdurdod. Roedd cyfanswm o 39 o sefydliadau bwyd yn hwyr yn cael ymyriad safonau bwyd. O'r rhain, roedd dau yn sefydliadau risg uchel, 20 yn sefydliadau risg ganolig, ac 17 yn sefydliadau risg isel. Oherwydd gwall gweinyddol, sydd bellach wedi'i ddatrys, roedd nifer bach o'r safleoedd hyn, gan gynnwys y ddau safle risg uchel, yn hwyr yn cael ymyriad heb i neb sylwi arnynt. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod y dull a gymerwyd i reoli'r rhaglen ymyriadau wedi'i seilio'n llwyr ar y risg hylendid bwyd yn hytrach na'r risg safonau bwyd, fel sy'n ofynnol. Mae'r cywiriad a roddwyd ar waith yn golygu, lle bo angen, y bydd y dull o reoli'r rhaglen ymyriadau yn y dyfodol yn seiliedig ar y risg safonau bwyd yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar y risg hylendid bwyd.

4.3.2 Mae gweithdrefnau ymyriadau bwyd wedi'u datblygu, i raddau helaeth, yn unol â'r gofynion. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai'r gweithdrefnau'n cynnig eglurder ychwanegol ynghylch pryd y dylid cymryd samplau a phryd y dylid cynnal ailymweliad ar gyfer materion safonau bwyd, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â materion alergenau.

4.3.3 Roedd ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal fel ymyriad cyfun ochr yn ochr ag ymyriadau hylendid bwyd yn y rhan fwyaf o achosion, gan ddefnyddio ffurflenni aide-mémoire arolygu ar y cyd.

4.3.4 Archwiliwyd pum ymyriad safonau bwyd a gafodd eu cynnal yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Roedd yr ymweliadau wedi'u cynnal ar yr amlder cywir ym mhob achos ond un. Fodd bynnag, mewn tri achos, yn sgil canfod diffyg cydymffurfio sylweddol yn ystod ymyriadau

blaenorol, dylai hyn fod wedi arwain at ailymweliadau pellach â'r busnes i wirio cydymffurfiaeth, yn unol â'r FLCoP. Yn ogystal, dylai'r sgôr ymyrryd fod wedi'i chodi i'r categori uchaf (A) a dylai amlder yr ymyriadau yn y dyfodol fod wedi cynyddu.

4.3.5 Ym mhob achos, roedd arsylwadau'r swyddogion wedi'u dogfennu yn yr Aide-mémoire Arolygu Bwyd. Roedd modd cael gafael ar gofnodion darllenadwy yn ymwneud â'r arolygiad diweddaraf, ac roedd arsylwadau'r swyddog wedi'u dogfennu. Fodd bynnag, nid oedd yr archwilwyr yn gallu penderfynu a oedd yr ymweliadau ymyrryd yn rhai dirybudd. Ym mhob achos, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau pa fath o weithgarwch bwyd roedd y busnes ynghlwm wrtho. Serch hynny, mewn pedwar o'r achosion, nid oedd y swyddogion wedi cofnodi maint, graddfa a chwmpas y busnes nac a oedd samplau wedi'u cymryd.

4.3.6 Roedd asesiadau o gydymffurfiaeth â gofynion olrheiniadwyedd wedi'u cynnal ym mhob achos, ac roedd asesiadau o ofynion cyfansoddiad, cyflwyniad a labelu wedi'u dogfennu'n rhannol ym mhob achos ond un.  Fodd bynnag, ym mhob achos roedd diffyg gwybodaeth am weithdrefnau busnesau ar gyfer galw/tynnu cynhyrchion yn ôl.

4.3.7 Ym mhob ffeil, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod swyddogion wedi gwneud asesiad o systemau rheoli diogelwch bwyd mewn perthynas â safonau bwyd. Fodd bynnag, mewn tri achos nid oedd digon o wybodaeth ar gael i ddangos canfyddiadau'r swyddog.

4.3.8 Lle'r oedd ymyriadau blaenorol wedi dangos achosion o dorri rheolau, roedd asesiadau o'r rhain wedi digwydd yn ystod yr ymyriad cyfredol ym mhob achos.

4.3.9 Roedd cyngor ar gydymffurfio â'r gofynion o ran bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) wedi'i ddarparu i fusnesau, lle'r oedd hynny'n briodol. Fodd bynnag, mewn tri achos, roedd cofnodion o asesiadau o gydymffurfiaeth yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig, gan atal camau dilynol priodol rhag cael eu nodi. Roedd tystiolaeth hefyd y gellid bod wedi ymgymryd ag ailymweliad a/neu gymhwyso camau gorfodi, neu eu huwchgyfeirio'n gynt, er mwyn mynd i'r afael â'r achosion mynych o dorri rheolau dros sawl ymyriad. Yn ogystal, mewn dau achos, lle canfuwyd llawer o gynhyrchion a oedd wedi'u labelu'n anghywir ar gyfer PPDS, nid oedd yn amlwg bod ystyriaethau wedi'u gwneud ynghylch a oedd y bwyd hwn yn anniogel ac a ddylid ei dynnu oddi ar y farchnad i'w werthu. Mewn un achos, cyflwynwyd hysbysiad statudol am ddiffyg cydymffurfio â rheolaethau alergenau yn 2025, er gwaethaf cofnodi achosion o ddiffyg cydymffurfio ers cyflwyno PPDS ym mis Hydref 2021 a'r ffaith bod archwilwyr o'r farn y dylid bod wedi cynyddu camau gorfodi yn gynt.

4.3.10 Roedd y sgoriau risg a roddwyd yn gyson â chanfyddiadau'r swyddogion ac yn unol â'r FLCoP ym mhob achos.

4.3.11 Dywedodd yr awdurdod nad oedd yn defnyddio strategaeth orfodi amgen ar gyfer sefydliadau risg is ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd polisi yn manylu pryd y byddai'n cael ei gweithredu.

4.3.12 Roedd adroddiadau ymweliadau wedi'u gadael gyda gweithredwyr busnesau bwyd ar adeg yr arolygiad neu wedi'u hanfon drwy e-bost yn fuan wedi hynny ym mhob achos ond un. Mewn un achos, bu oedi o dros fis cyn rhoi adroddiad i'r busnes. Roedd adroddiadau wedi'u cyfeirio at yr enw masnachu a'r cyfeiriad cywir ar gyfer y busnes. Mewn un achos, dylid bod wedi anfon yr adroddiad i bencadlys y cwmni cyfyngedig.

4.3.13 Roedd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys ffurflenni cofrestru, aide-mémoires arolygu, ffurflenni adrodd am ymweliad ar ôl arolygiad a gohebiaeth ar gael yn electronig. Roedd manylion y dyddiad a'r mathau o ymyriadau a gynhaliwyd mewn sefydliadau bwyd, yn ogystal â'r proffiliau risg a'r sgoriau safonau bwyd, wedi'u storio ar gronfa ddata sefydliadau bwyd electronig. Ym mhob achos, lle'r oedd yn berthnasol, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf ar gael. Roedd ffurflenni cofrestru bwyd ar gael ar ffeil mewn pedwar achos, fodd bynnag, ar un ffeil roedd y ffurflen gofrestru wedi'i dileu'n awtomatig oherwydd polisi cadw data'r awdurdod. Fodd bynnag, roedd y manylion wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata electronig ac roedd yr awdurdod yn bwriadu anfon ffurflen newydd at weithredwr y busnes bwyd er mwyn cyflawnder.

4.3.14 Yn gyffredinol, roedd adroddiadau arolygu'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth ganlynol ar gael yn gyson ym mhob achos, lle'r oedd dibyniaeth ar adroddiadau copi carbon:

- disgrifiad o bwrpas rheolaethau swyddogol
- cyfeiriad cofrestredig, os yw'n wahanol
- y person a welwyd/a gyfwelwyd
- y gyfraith bwyd benodol a ystyriwyd wrth gynnal yr arolygiad
- y mannau a arolygwyd
- y dogfennau/cofnodion eraill a archwiliwyd
- y samplau a gymerwyd
- pwyntiau allweddol a drafodwyd yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys canlyniad rheolaethau swyddogol ac unrhyw ddiffyg cydymffurfio a nodwyd
- camau i'w cymryd gan yr awdurdod bwyd
- gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion
- amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio
- teitl swydd y swyddog arolygu
- manylion cyswllt y swyddog arolygu

4.3.15 Yn y tri achos lle nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio, nid oedd yr adroddiadau'n cynnwys digon o fanylion i nodi'n glir y gofynion cyfreithiol a'r camau gweithredu oedd eu hangen i gydymffurfio â'r gofynion. Nid oedd amserlenni ar gyfer cydymffurfio wedi'u rhoi mewn unrhyw achos.

**Argymhellion**

4.3.16 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan yr FLCoP. [Erthyglau 9(1) a (2) o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 4.2, 4.3, 4.4.2 o'r FLCoP]
- (ii) Diwygio'r weithdrefn ymyrryd i gynnwys ystyriaeth o'r holl ddulliau a thechnegau i wirio cydymffurfiaeth, gan gynnwys a ddylid cymryd sampl bwyd. [Erthyglau 5(1)(a), 9(1), 12 ac 14 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 4.5 o'r FLCoP a 4.2.2 o'r FLPG]
- (iii) Sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal heb rybudd ymlaen llaw, ac eithrio pan fydd angen rhoi rhybudd a bod modd cyfiawnhau hynny ar gyfer y rheolaeth swyddogol sydd i'w chynnal. [Erthygl 9(4) o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 4.2.1 o'r FLCoP]
- (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a geir yn ystod ymyriad/arolygiad safonau bwyd yn cynnwys maint a chwmpas y busnes a gwybodaeth gyflawn ar gyfer asesiadau o systemau rheoli safonau bwyd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad, systemau tynnu/galw bwyd yn ôl, ac a ddylid cymryd samplau. [Erthyglau 5(1)(a) a (b), 9(1), 12, 13 ac 14 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 4.2.2, 4.2.3, 4.5 o'r FLCoP a 2.13.3, 4.2.2, 4.3.3.3 o'r

FLPG]

- (v) ESicrhau bod llythyrau ynghylch adroddiadau ymyriadau wedi'u cyfeirio'n gywir, wedi'u hanfon yn brydlon at y busnes a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. [Erthygl 13 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 4.2.3 FLCoP, 4.3.4 o'r FLPG]

**Ymweliad Dilysu â Sefydliad Bwyd**

4.3.17 Cynhaliwyd ymweliad dilysu mewn sefydliad bwyd gyda swyddog awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiad safonau bwyd diweddaraf. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu pa mor effeithiol yr oedd yr awdurdod wedi asesu'r systemau sydd gan y busnes ar waith i sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd.

4.3.18 Roedd y swyddog yn gallu dangos ei wybodaeth am y busnes a rhoi sicrwydd i'r archwilwyr fod asesiadau o reolaethau alergenau wedi digwydd fel rhan o'r arolygiad. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr ymweliad hefyd bwysigrwydd cofnodi arsylwadau manwl ar yr arolygiadau yn llawn yn y ffurflen aide-mémoire briodol a phwysigrwydd cofnodi natur a graddfa'r gwahanol gynhyrchion a gynigir i'w gwerthu. Cadarnhaodd ymhellach fod angen cymryd camau dilynol priodol, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth ddigon manwl yn cael ei rhoi i'r busnes a bod bwyd anniogel yn cael ei drin yn briodol a bod gan y busnes ei weithdrefnau ei hun ar gyfer tynnu a galw cynhyrchion yn ôl.

**4.4 Arolygu a Samplu Bwyd**

4.4.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am samplu safonau bwyd a oedd yn awgrymu cyfranogiad posib mewn prosiectau neu arolygon, ond nid oedd yn ymdrin â gwaith samplu arferol a wnaed yn ystod arolygiadau ar sail risg na gwaith samplu a wnaed mewn ymateb i faterion yn codi. Darparwyd cynllun samplu i archwilwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol hon, fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn ystyried gwaith samplu safonau bwyd, gan gynnwys samplu ar gyfer alergenau.

4.4.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi ar y cyd ar gyfer gweithgarwch samplu safonau bwyd a hylendid bwyd. Roedd yr awdurdod wedi penodi Dadansoddwr Cyhoeddus i gynnal dadansoddiadau o fwyd. Roedd y labordy ar y rhestr gydnabyddedig o Labordai Swyddogol Dynodedig y DU.

4.4.3 Roedd gweithdrefn yr awdurdod ar gyfer cymryd samplau bwyd yn amlinellu sut i gymryd samplau yn ogystal â'r camau i'w cymryd ar ôl i ganlyniadau ddod i law.

4.4.4 Nid oedd unrhyw samplau safonau bwyd wedi cael eu cymryd o fewn cwmpas yr archwiliad, ac felly ni chynhaliwyd gwiriadau cydymffurfio ar ffeiliau fel rhan o'r archwiliad.

**Argymhellion**

4.4.5 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sefydlu a chynnal rhaglen o samplu safonau bwyd yn seiliedig ar risg. [Erthyglau 9(1), 14, 137 a 138 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 2.3 o'r FLCoP a 2.6.2 o'r FLPG]

**4.5 Cwynion am Fwyd a Safleoedd Bwyd**

4.5.1 Mae’r awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer ymdrin â ch?ynion sy’n ymwneud â bwyd ac mae’r weithdrefn hon yn amlinellu’r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau.

4.5.2 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion yn ymwneud â phum cwyn neu gais am wasanaeth a ddaeth i law’r awdurdod. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau yr ymchwiliwyd i g?ynion yn amserol. Canfuwyd bod y rhan fwyaf o’r achosion wedi bod yn destun ymchwiliad trylwyr; fodd bynnag, cafodd un cais am wasanaeth a ddaeth i law trwy atgyfeiriad gan awdurdod cyfagos ymchwiliad rhannol nad oedd yn cynnwys ymweliad â’r sefydliad i wirio bod cyngor a gyhoeddwyd yn flaenorol ar reolaethau alergenau wedi’i roi ar waith. Ar ben hynny, efallai y byddai cymryd sampl wedi rhoi sicrwydd ychwanegol.

4.5.3 Lle bo’n briodol, roedd pawb a gyflwynodd g?yn wedi cael gwybod am ganlyniadau’r ymchwiliad ac roedd camau priodol wedi’u cymryd yn seiliedig ar ganfyddiadau’r ymchwiliadau mewn pedwar achos. Mewn un achos, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach er gwaethaf tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â labelu alergenau, ynghyd â hanes busnes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio.

**Argymhellion**

4.5.4 Dylai’r awdurdod:

- (i) Sicrhau yr ymchwilir i g?ynion am fwyd neu geisiadau am wasanaeth yn drylwyr a bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas ag achosion o ddiffyg cydymffurfio. [Erthyglau 5, 12, 137 a 138 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 6.4 o’r FLCoP a 6.3.1 o’r FLPG]

**4.6 Gorfodi**

4.6.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi Corfforaethol, a ategwyd gan y Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y polisïau wedi’u cymeradwyo gan ddeiliad y portffolio. Roedd y polisïau ar gael i’r cyhoedd a busnesau ar gais.

4.6.2 Roedd y dogfennau hyn yn gorfodi dull graddol o orfodi, a chyda’i gilydd, roeddent yn gyffredinol yn unol â’r FLCoP a chanllawiau swyddogol eraill. Roeddent yn cynnwys meini prawf ar gyfer cynnal camau anffurfiol, amryw hysbysiadau statudol, camau ffurfiol eraill, rhybuddion syml a chamau erlyn, ac yn cyfeirio at gynllun y Prif Awdurdod.

4.6.3 Cafodd y camau gweithredu hyn mewn sefydliadau lle mae gan y Cyngor ei hun fuddiant eu trafod yn y polisïau, fel ysgolion a chartrefi gofal. Byddai’n fuddiol newid hyn i gynnwys canolfannau hamdden.

4.6.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn orfodi a oedd yn manylu ar ddisgwyliadau’r awdurdod o ran rhai camau gorfodi. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (FIRINs), Hysbysiadau Camau Unioni (RANs), Cau Gwirfoddol, Hysbysiadau a Gorchmynion Gwahardd, atafaelu, cadw, ardystio ac ildio gwirfoddol, rhybuddion syml ac erlyniadau.

4.6.5 Trafododd archwilwyr y budd o adolygu’r weithdrefn ar gyfer gorfodi i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer drafftio a chynnal profion o gyflwyno hysbysiadau.

4.6.6 Roedd yr awdurdod wedi darparu gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer cychwyn erlyniadau a chynnal rhybuddion syml. Er bod y rhain yn ystyried y rhan fwyaf o agweddau’r gwaith hwn, byddai’n fuddiol eu datblygu ymhellach, er mwyn cynnwys manylion ar sut i lunio ffeil achos, gan gynnwys trefniadau lleol ar gyfer datblygu achos, gan ystyried rolau a chyfrifoldebau Deddf Ymchwilio i Weithdrefnau Troseddol 1996. Ymhellach, dylid diwygio cyfeiriadau at benderfyniadau terfynol a wnaed gan Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar erlyniadau, a hynny er mwyn adlewyrchu bod y rôl hon wedi’i dirprwyo’n gyfansoddiadol i Brif Swyddog y Gyfraith a Llywodraethu.

4.6.7 Roedd camau gorfodi ffurfiol a gymerwyd o fewn cwmpas yr archwiliad yn cynnwys dau FIR IN ond ni chyflwynwyd unrhyw hysbysiadau eraill, a ni chymerwyd camau gwirfoddol. Ni chafodd unrhyw achosion erlyniadau/rhybuddion syml yn ymwneud â rheolaethau alergenau o fewn cwmpas yr archwiliad hwn eu huwchgyfeirio ar gyfer penderfyniadau.

4.6.8 Adolygodd yr Archwilydd ddau o’r ffeiliau FIRIN a oedd yn manylu’r holl wybodaeth ofynnol ym mhrif gorff yr hysbysiad yn gywir. Fodd bynnag, mae pwynt 5 o’r hysbysiad yn cyfeirio at yr FIRIN fel Hysbysiad Gwella Hylendid (HIN), ac felly byddai angen diwygio templed yr hysbysiad. Ar ben hynny, roedd yr wybodaeth am apeliadau ar y ddau FIRIN yn anghywir, gan gyfeirio at Dribiwnlys yn hytrach na Llys yr Ynadon. Nodwyd bod hysbysiad templed y weithdrefn yn cynnwys y geiriad cywir.

4.6.9 Yn y ddau achos FIRIN, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr hysbysiadau yn gam gweithredu priodol yn dilyn dull gorfodi graddol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd prawf o gyflwyno’r naill hysbysiad na’r llall.

4.6.10 Nid oedd modd gwirio a oeddent yn cydymffurfio, gan nad oedd un wedi dod i ben eto ac roedd y safle arall wedi rhoi’r gorau i fasnachu.

**Argymhellion**

4.6.11 Dylai’r awdurdod:

- (i) adolygu a diwygio ei bolisïau gorfodi i gynnwys canolfannau hamdden lle mae buddiant yn berthnasol. Sicrhau bod y ddau bolisi wedi’u cymeradwyo gan y fforwm aelodau priodol [Erthyglau 5(1a,b), 137 a 138 o Reoliad (UE) 2017/625 a gymathwyd, FLCoP 2.1, 2.3.2, 2.6.2 a FLPG 2.4.2]
- (ii) adolygu a diwygio ei weithdrefnau gorfodi i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer drafftio a chynnal profion o wasanaeth ar gyfer hysbysiadau statudol, ynghyd â’r broses o lunio a chymeradwyo ffeiliau ar gyfer penderfyniadau ar erlyniadau/rhybuddion syml [Erthyglau 5(1a,b), 12, 13, 137 a 138 o Reoliad (UE) 2017/625 a gymathwyd, FLCoP 2.3 a’r FLPG 2.3.13]
- (iii) sicrhau bod hysbysiadau FIRIN yn cynnwys yr wybodaeth gywir am yr apêl bod prawf o wasanaeth yn cael ei gofnodi [Erthyglau 5(1a,b), 12, 13, a 138 o Reoliad (UE) 2017/625 a gymathwyd, FLCoP 6.2, 6.3 a 6.4, FLPG 6.6.9.1, 6.6.10]
- (iv) sicrhau bod camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod ymyriadau yn cael ei unioni [Erthygl 138 o Reoliad (UE) 2017/625 a gymathwyd, FLCoP 6.2, 6.3 a 6.4]

**4.7 Monitro mewnol**

4.7.1 Mae monitro mewnol yn bwysig i sicrhau y caiff targedau perfformiad eu cyflawni a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau.

4.7.2 Mae targedau perfformiad allweddol wedi'u nodi yn unol â'r FLCoP ac mae gan yr awdurdod drefniadau ar waith ar gyfer monitro mewnol meintiol chwarterol a blynyddol ar draws y gwasanaethau bwyd. Roedd perfformiad yn cael ei adrodd drwy'r system monitro perfformiad corfforaethol. Caiff cynnydd rhaglenni ymyrryd ei fonitro ymhellach yn rheolaidd gan y swyddog arweiniol.

**Arferion da**

Roedd y system monitro perfformiad corfforaethol yn cynnwys adrodd yn erbyn pob categori risg o fewn yr FLCoP, gan gynnwys safleoedd risg is, yn ogystal â sefydliadau heb sgôr. Roedd tangyflawni yn erbyn amlderau ymyrryd gofynnol wedi'i nodi, yn ogystal â chyflawni'r amlderau ymyrryd.

4.7.3 Roedd gweithdrefn fonitro fewnol ddogfenedig wedi'i datblygu ar gyfer y gwasanaethau bwyd, gan gynnwys ymweliadau a gynhelir yng nghwmni swyddog arall yn ogystal â sampl o wiriadau ffeiliau ar draws y rhan fwyaf o weithgareddau rheolaethau swyddogol. Byddai'r weithdrefn yn elwa o welliant, gan bennu maint sampl cynyddol o weithgarwch monitro mewnol, y cyfnod hiraf ar gyfer gwirio awdurdodiadau swyddogion, a chynnwys ymchwiliadau i ddigwyddiadau a swmp-wiriadau cronfeydd data.

4.7.4 Roedd Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a'r swyddogion arweiniol yn gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau gorfodi bwyd yn fewnol ar lefel weithredol.

4.7.5 Roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod peth monitro ansoddol mewnol wedi'i gynnal ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys gwirio cofnodion.

4.7.6 Roedd y cofnodion a gadwyd, yn unol â'r weithdrefn, yn cadarnhau natur a maint y gweithgarwch monitro. Roedd yr archwilwyr yn gallu dangos bod rhywfaint o fonitro ansoddol wedi'i gynnal ar draws y ddau wasanaeth, gan gynnwys arolygiadau yng nghwmni swyddog arall, gwiriadau cofnodion ffeiliau ymyrryd, a cheisiadau am wasanaeth.

4.7.7 Byddai'n fuddiol ehangu maint a graddfa'r monitro mewnol yn ymarferol, a hefyd cynnwys gwiriadau awdurdodi cyfnodol, swmp-wiriadau cronfeydd data ac ymatebion i ddigwyddiadau.

4.7.8 Roedd y cofnodion mewn perthynas â monitro mewnol a oedd ar gael yn cael eu cadw gan reolwyr am o leiaf dwy flynedd.

**Argymhelliad**

4.7.9 Dylai'r awdurdod:

- (i) adolygu ei weithdrefnau monitro mewnol dogfenedig i sicrhau bod yr holl weithgareddau perthnasol yn destun monitro cymesur. Dylai hyn nodi maint sampl cynyddol o weithgarwch monitro mewnol, y cyfnod hiraf ar gyfer gwirio awdurdodiadau swyddogion, a chynnwys ymchwiliadau i ddigwyddiadau a swmp-wiriadau cronfeydd data. Dylid ehangu maint a

graddfa'r monitro mewnol yn ymarferol, a hefyd cynnwys gwiriadau awdurdodi cyfnodol, swmp-wiriadau cronfeydd data ac ymatebion i ddigwyddiadau [OCR Arts 5(1a&b) a 12, FLCoP 2.3 a'r FLPG 2.3.4]

**4.8 Camau archwilio perthnasol sydd heb eu cwblhau**

4.8.1 Dilynwyd camau archwilio agored perthnasol o raglenni archwilio blaenorol. Mae hyn yn cynnwys y camau gweithredu o raglen archwilio lawn 2013-2017 ac archwiliad â ffocws y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn 2017. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gael ar wefan yr ASB.

**Archwilwyr:**

Craig Sewell
Joshua Jolliffe
Angela Phillips

**Adran:**

Y Tîm Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio,
Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru,
Llawr 4,
Adeilad Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

# Atodiad A: Cynllun Archwilio

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

Cynllun archwilio awdurdodau lleol – Cymru

Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Briff y Rhaglen

Sarah Maddox
Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio – Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru
E-bost: Sarah.Maddox@food.gov.uk

Craig Sewell
Uwch-reolwr Archwilio, yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru – Archwilydd Arweiniol
E-bost: wales.audit@food.gov.uk

## Cefndir

1. Yng Nghymru, rhoddwyd y grym i bennu safonau a monitro gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd awdurdodau lleol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) o dan Adran 12 o

Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (y Ddeddf) a Rheoliad 7 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

2. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau statudol i'r ASB er mwyn cryfhau ei dylanwad dros weithgarwch gorfodi ac i sicrhau y caiff blaenoriaethau ac amcanion cenedlaethol eu cyflawni ar lefel leol. Mae'n rhoi pwerau i'r ASB gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- pennu safonau perfformiad mewn perthynas â gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd
- monitro perfformiad awdurdodau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd
- mynnu gwybodaeth gan awdurdodau lleol ynghylch gorfodi cyfraith bwyd ac archwilio unrhyw gofnodion
- mynd i mewn i safleoedd awdurdodau lleol, i archwilio cofnodion a chymryd samplau
- cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol
- llunio adroddiadau i awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys canllawiau ar wella perfformiad

3. Yn Rheoliad a gymathwyd (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gynhelir i sicrhau y gellir dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd, ceir gofyniad, o dan Erthygl 6, i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu gael eu harchwilio'n allanol.

4. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid a'r cyhoedd fod awdurdodau cymwys, fel awdurdodau lleol, yn darparu ac yn gweithredu unrhyw ddeddfwriaeth, cyngor a chanllawiau a gyhoeddir mewn perthynas â'r gwasanaethau maent yn eu darparu, a hynny mewn modd cywir. Mae'r rhaglen archwilio hon, ar y cyd â'r arolygon perfformio bob chwe mis, yn darparu elfen allweddol o fframwaith sicrwydd cyffredinol yr ASB.

5. Fel rhan o'r rhaglen archwilio hon, cynhelir archwiliadau systematig ac annibynnol o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cynnal rheolaethau swyddogol mewn perthynas â chyfraith bwyd yng Nghymru.

## Amcanion y Rhaglen

6. Bydd y rhaglen archwilio yn ystyried y rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol a gynhaliwyd o **1 Ebrill 2023** ymlaen. Bydd gweithgareddau rheoli sy'n ymwneud â gweithredu'r ddeddfwriaeth yn y meini prawf cyn y dyddiad hwn hefyd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio.

7. Bydd yr archwiliadau'n dangos a fu'r broses o weithredu rheolaethau bwyd swyddogol sy'n ymwneud ag alergenau yng Nghymru yn effeithiol. Gallai methu â sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a allai effeithio'n andwyol ar iechyd a lles pobl Cymru arwain at niwed i enw da awdurdodau lleol a'r ASB, yn ogystal â cholli hyder yn y diwydiant bwyd.

8. Bydd y rhaglen archwilio â ffocws yn cynnwys archwiliad o'r rheolaethau swyddogol, y gweithgareddau swyddogol a'r canlyniadau cysylltiedig y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gyflawni amcanion y ddeddfwriaeth isod:

- Deddf Diogelwch Bwyd 1990
- Rheoliad a gymathwyd (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr
- Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

9. Nodau penodol y rhaglen archwilio hon yw:

- rhoi sicrwydd bod y gwaith o gyflwyno deddfwriaeth labelu alergenau, sydd wedi bod ar waith ers 2014 yng Nghymru, wedi'i weithredu'n effeithiol gan awdurdodau lleol; hynny yw, bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod), Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru), y Cytundeb Fframwaith a

chanllawiau a deddfwriaeth swyddogol eraill a gyhoeddwyd yn ganolog (footnote 1)

- gwerthuso gweithgareddau awdurdodau lleol mewn perthynas â busnesau bwyd sy'n darparu cynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol (PPDS) i ddefnyddwyr, a ddaeth i rym ym mis Hydref 2021
- nodi unrhyw enghreifftiau o arferion da ac arloesi a'u rhannu ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth gynnal rheolaethau
- darparu modd o nodi tanberfformiad yn systemau gorfodi cyfraith bwyd yr awdurdodau lleol
- darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu polisi'r ASB
- adolygu cynnydd awdurdodau lleol o ran gweithredu unrhyw argymhellion perthnasol sydd heb eu cyflawni o archwiliadau blaenorol

## Cwmpas y Rhaglen Archwilio

10. Bydd y rhaglen hon yn cynnwys cyfres o archwiliadau ledled Cymru i asesu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr a'r risg i ddefnyddwyr â gorsensitifrwydd i fwyd, yn ogystal ag adolygu unrhyw gamau archwilio agored perthnasol yn dilyn archwiliadau blaenorol. Bydd yr archwiliadau'n asesu a yw awdurdodau lleol yn cynnal ymyriadau sy'n cynnwys asesiadau o alergenau yn seiliedig ar raglen o ymyriadau sy'n unol â'r Cod.

11. Bydd y rhaglen archwilio yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r meysydd canlynol o reolaethau swyddogol:

- cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau safonau bwyd
- yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r gwasanaeth a blaenoriaethu gweithgareddau ar sail risg, gan gynnwys asesu busnesau bwyd newydd
- awdurdodiad a chymhwysedd swyddogion
- ymyriadau (rhai sydd wedi'u rhaglenni a rhai ymatebol) a gorfodi
- polisi, gweithdrefnau a rhaglen samplu
- monitro mewnol
- unrhyw faterion eraill yn ymwneud â rheolaethau alergenau

12. Camau archwilio heb eu cwblhau – adolygu unrhyw gamau heb eu cwblhau perthnasol o archwiliadau blaenorol a diweddaru cynllun gweithredu archwiliadau'r awdurdodau lleol yn unol â hynny.

## Dull Asesu

13. Bydd yr archwiliadau'n cynnwys y canlynol:

- holiadur cyn yr archwiliad yn gofyn am gopïau o gynlluniau gwasanaeth yr awdurdod lleol, ymyriadau sydd wedi'u cynllunio/cwblhau a dogfennau cysylltiedig
- bydd yr awdurdod lleol hefyd yn cael copi o gynlluniau gweithredu archwilio blaenorol, a gofynnir iddo ddarparu tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed ar unrhyw gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni
- yna cynhelir archwiliad strwythuredig ar y safle, a fydd yn cynnwys cyfarfodydd gyda Phennaeth y Gwasanaeth, swyddogion arweiniol yr awdurdod lleol a staff perthnasol eraill ynghylch y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol, ymweliad gwirio realiti ac adolygiadau o ffeiliau achosion

## Hysbysu

14. Rhoddir hysbysiad ymlaen llaw o 4 wythnos o'r angen i gyflwyno deunydd cyn yr archwiliad, a rhoddir o leiaf 6 wythnos o rybudd ymlaen llaw ar gyfer ymweliad archwilio, ar gyfer pob archwiliad a gynhelir o dan y cynllun archwilio hwn. Bydd hyn yn hybu tryloywder ac yn hwyluso

effeithiolrwydd y broses archwilio trwy ganiatáu digon o amser i bob awdurdod lleol gasglu dogfennau a sicrhau bod staff a chyfleusterau priodol ar gael.

## Amseru

15. Cynhelir yr archwiliadau rhwng mis Mai 2025 a mis Chwefror 2026. Ar gyfer pob awdurdod lleol, dylai'r elfen honno o'r archwiliad a gynhelir ar y safle gymryd dau ddiwrnod gwaith ar gyfer gwaith asesu, ac yna cyfarfod cloi ar y trydydd diwrnod.

## Adroddiad Asesu a Chamau Dilynol

16. ABydd pob awdurdod lleol yn y rhaglen yn cael adroddiad unigol a chynllun gweithredu archwilio wedi'i ddiweddaru; caiff y ddwy ddogfen eu cyhoeddi ar wefan yr ASB. Bydd asesiad o sicrwydd cyffredinol ar gyfer rheolaethau alergenau hefyd yn cael ei anfon at bob awdurdod lleol, ond ni fydd yn cael ei gyhoeddi.

17. Ar ddiwedd y rhaglen, bydd adroddiad cryno dienw yn cael ei gynhyrchu. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau o'r rhaglen archwilio. Bydd yr adroddiad cryno yn cynnwys argymhellion i awdurdodau lleol a'r ASB wella sut y cynhelir rheolaethau swyddogol. Bydd yr adroddiad cryno hefyd yn amlygu unrhyw themâu cyffredin a materion sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal ag unrhyw feysydd o arferion da a nodwyd yn ystod y rhaglen.

## Canlyniadau Disgwyliedig

### Canlyniadau Uniongyrchol

- Rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd ar waith o ran rheolaethau swyddogol a gynhelir gan awdurdodau lleol i reoli'r risg diogelwch bwyd a berir i unigolion â gorsensitifrwydd i fwyd wrth ddod i gysylltiad ag alergenau
- Bydd gwelliannau a chamau a gymerir gan awdurdodau lleol yn cyfrannu at waith gorfodi cyfraith bwyd mwy effeithiol ar lefel leol
- Bydd rhannu arferion da a nodwyd yn ehangach yn cyfrannu at wella ansawdd ac effeithiolrwydd y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd
- Bydd canfyddiadau ac argymhellion yn cael eu rhannu â thimau perthnasol yr ASB er mwyn llywio'r gwaith o lunio polisïau
- Bydd yr archwiliadau'n sicrhau bod yr ASB yn cyflawni ei swyddogaeth statudol

### Canlyniadau Strategol

- Bydd yr archwiliadau'n codi proffil y gwasanaeth bwyd mewn awdurdodau lleol ac yn eu helpu i gynnal/gwella'r modd y maent yn dyrannu adnoddau
- Rhoi sicrwydd cadarn ynghylch y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu gofynion y Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd
- Wrth i fusnesau gydymffurfio'n well o ran hylendid a safonau bwyd, bydd hyn yn cyfrannu at y gwaith o wella iechyd y cyhoedd ac yn lleihau'r tebygolrwydd o afiechydon a gludir gan fwyd, digwyddiadau bwyd a thwyll bwyd
- Cyfrannu at ddulliau rheoli risg strategol yr ASB a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r DU o dan ofynion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd 2009 a Deddf Safonau Bwyd 1999

# Atodiad B: Cynllun gweithredu archwilio ar gyfer rheoli alergenau

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Fynwy
# Dyddiad yr archwiliad: 15 – 17 Gorffennaf 2025

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| 4.1.17 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. Yn benodol, dylid darparu manylion eu blaenoriaethau a'u gweithgareddau samplu safonau bwyd sy'n seiliedig ar risg. | 30/11/25 | Mae gennym gyllideb ar gyfer gwaith samplu safonau bwyd. Byddwn yn datblygu cynllun samplu ar gyfer bwydydd a gynhyrchir yn lleol ac yn cyfrannu at fentrau samplu safonau bwyd rhanbarthol a chenedlaethol, yn enwedig pan ddarperir cyllid penodol. | Rydym wedi trafod y gyllideb samplu gyda'n cynghorwyr ariannol. Rwyf hefyd wedi gwneud ymholiadau gydag awdurdodau lleol eraill yng Ngwent ynghylch eu cynlluniau samplu safonau bwyd. |
| 4.1.17 (ii) Sicrhau bod yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd. | 30/11/25 | Bydd y cynllun gwasanaeth bwyd yn cael ei ddiwygio i gynnwys ystyriaeth ar berfformiad y flwyddyn flaenorol. | Ar hyn o bryd darperir gwybodaeth drwy'r cynlluniau gwella busnes chwarterol (BIPs) sy'n cael eu casglu at ei gilydd mewn cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ac sydd ar gael i'r cyhoedd. |
| 4.1.17 (iii) Sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran bodloni'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd mewn cynllun dilynol. | 30/11/25 | Mwy o fonitro mewnol a mwy o ddefnydd o'r daenlen a rannwyd yn ystod yr archwiliad. | |
| 4.2.9 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Sicrhau bod ganddo nifer digonol o staff â chymwysterau a phrofiad addas fel bod modd cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol. | 30/11/25 | Bydd y diffyg a nodwyd fel 0.1 CALl yn cael ei ysgwyddo drwy ailddyrannu tasgau i staff eraill, yn enwedig myfyrwyr a staff â chymwysterau a drosglwyddwyd i'r tîm diogelu'r cyhoedd dros dro, er enghraifft, asesiad cyflenwad d?r preifat, SRs, ymyriadau bwyd risg isel, gwaith ESAG a gwaith prosiect iechyd a diogelwch. | |
| 4.2.9 (ii) Rhoi rhaglen ar waith sy'n sicrhau bod staff sy'n cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael hyfforddiant priodol ar sail eu hanghenion unigol a'r gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni. | 30/11/25 | Mae cynllun hyfforddi mwy strwythuredig yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod staff yn cael DPP digonol a phriodol. | Trafodwyd anghenion hyfforddi mewn cyfarfodydd tîm ac mewn cyfweliadau un i un â'r staff. |
| 4.3.16 (i) Dylai'r awdurdod:<br>Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan yr FLCoP. | 30/11/25 | Bydd y daenlen a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad yn cael ei defnyddio i wirio a monitro amlder yr arolygiadau. | Mae'r gwall a wnaed wrth gyfrifo amlderau arolygiadau safonau wedi cael sylw. Nodwyd pam bod y gwall wedi digwydd, ac mae staff cymorth wedi cael eu hailhyfforddi.<br>Bydd busnesau sydd â sgôr Q uwch gyda materion safonau bwyd mwy cymhleth yn cael eu harolygu ar wahân ar gyfer safonau bwyd, a bydd amlder y risg yn cael ei gyfrifo'n annibynnol. Bydd hyn yn lleihau'r risg o ddefnyddio amlder F mewn camgymeriad. |
| 4.3.16 (ii) Dylai'r awdurdod:<br>Diwygio'r weithdrefn ymyrryd i gynnwys ystyriaeth o'r holl ddulliau a thechnegau i wirio cydymffurfiaeth, gan gynnwys a ddylid cymryd sampl bwyd. | 30/11/25 | Diwygio'r polisi ymyrryd er mwyn ystyried samplu yn ystod ymweliadau. | Mae cwestiwn ynghylch a ddylid cymryd samplau neu eu trefnu wedi'i ychwanegu at y ffurflen arolygu.<br>Ar hyn o bryd, bydd unrhyw samplu a ystyrir yn angenrheidiol ar adeg ymweliad yn cael ei drafod gyda'r swyddog arweiniol samplu i'w gynnwys mewn gwaith samplu dilynol. |
| 4.3.16 (iii) Dylai'r awdurdod:<br>Sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal heb rybudd ymlaen llaw, ac eithrio pan fydd angen rhoi rhybudd a bod modd cyfiawnhau hynny ar gyfer y rheolaeth swyddogol sydd i'w chynnal. [Erthygl 9(4) o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625; 4.2.1 o'r FLCoP] | 30/11/25 | Bydd y ffurflen gyfredol ar gyfer arolygu hylendid a safonau cyffredinol yn cael ei hadolygu'n llwyr. | Mae cwestiwn hefyd wedi'i ychwanegu at y ffurflen arolygu gyfredol ynghylch a gynhaliwyd yr arolygiad gyda rhybudd ymlaen llaw neu heb rybudd, ac os oes angen, y cyfiawnhad dros roi rhybudd ymlaen llaw. |
| 4.3.16 (iv) Dylai'r awdurdod:<br>Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a geir yn ystod ymyriad/arolygiad safonau bwyd yn cynnwys maint a chwmpas y busnes a gwybodaeth gyflawn ar gyfer asesiadau o systemau rheoli safonau bwyd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad, systemau tynnu/galw bwyd yn ôl, ac a ddylid cymryd samplau. | 30/11/25 | Bydd y ffurflen gyfredol ar gyfer arolygu hylendid a safonau cyffredinol yn cael ei hadolygu'n llwyr. | Mae cwestiynau eisoes wedi'u hychwanegu at y ffurflen arolygu gyfredol ynghylch natur, cwmpas a dosbarthiad y bwyd a gynhyrchir gan fusnes.<br>Mae cwestiwn ynghylch gweithdrefnau tynnu'n ôl hefyd wedi'i ychwanegu.<br>Roedd cwestiwn eisoes ar y ffurflen am olrheiniadwyedd.<br>Mae ffurflen arolygu safonau bwyd mwy manwl ar wahân wedi'i mabwysiadu ar gyfer busnesau safonau bwyd mwy cymhleth, a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer cynnal arolygiadau safonau yn unig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3.16 (v) Dylai'r awdurdod:<br>Sicrhau bod llythyrau ynghylch adroddiadau ymyriadau wedi'u cyfeirio'n gywir, wedi'u hanfon yn brydlon at y busnes a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. | 30/11/25 | Bydd y ffurflenni adroddiad copi carbon wedi'u hysgrifennu â llaw yn cael eu hadolygu. | Rydym wedi adolygu'r ffurflenni adroddiad wedi'u hysgrifennu â llaw a'r cyngor ynghylch cost ymweliad ail-sgorio. Bydd staff hefyd yn ysgrifennu'r gost ar yr adroddiad wedi'i ysgrifennu â llaw. |
| 4.4.5 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Sefydlu a chynnal rhaglen o waith samplu safonau bwyd yn seiliedig ar risg. | 30/11/25 | Sefydlu a chynnal rhaglen o waith samplu safonau bwyd yn seiliedig ar risg. | Gwneud ymholiadau ag awdurdodau lleol eraill yng Ngwent ynghylch prosiectau samplu safonau parhaus. |
| 4.5.4 (i) Dylai'r awdurdod:<br>Sicrhau yr ymchwilir i g?ynion am fwyd neu geisiadau am wasanaeth yn drylwyr a bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas ag achosion o ddiffyg cydymffurfio. | Ar unwaith | Monitro ac adolygu perfformiad SR yn barhaus. | Roedd y cais am wasanaeth wedi cael ei drin mewn ymweliad anffurfiol â'r safle. Roedden ni wedi hysbysu'r swyddog bwyd am y g?yn ac roedd hi wedi ein sicrhau y byddai'n ymchwilio i'r mater – roedd yn gynnyrch syml iawn (rholiau bara). Yn anffodus, ni wnaeth y swyddog gofnodi fod y cyngor wedi'i roi. |
| 4.6.11 (i) Dylai'r awdurdod:<br>Adolygu a diwygio ei bolisïau gorfodi i gynnwys canolfannau hamdden lle mae buddiant yn berthnasol.  Sicrhau fod y ddau bolisi wedi'u cymeradwyo gan y fforwm aelodau priodol. | 30/11/25 | Adolygu'r polisïau gorfodi. | Mae'r polisi ymyrryd wedi'i ddiwygio i gynnwys busnesau bwyd a reolir gan yr awdurdod lleol. |
| 4.6.11 (ii) Adolygu a diwygio ei weithdrefnau gorfodi i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer drafftio a chynnal profion o gyflwyno ar gyfer hysbysiadau statudol, ynghyd â'r broses o lunio a chymeradwyo ffeiliau ar gyfer penderfyniadau ar erlyniadau/rhybuddion syml. | 30/11/25 | Adolygiad o'r weithdrefn orfodi i gynnwys y ddogfen prawf o wasanaeth newydd sydd wedi'i datblygu a sut y dylid storio'r ddogfen.<br>Bydd y polisi gorfodi yn cael ei adolygu i gynnwys sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran rhybuddion syml ac erlyniadau, a bydd y gweithdrefnau'n cael eu diwygio i gynnwys y broses ar gyfer llunio ffeiliau achos. | Mae dogfen prawf o wasanaeth wedi'i datblygu, ac mae copi o'r ddogfen wedi'i storio ar y cofnod ymyrryd a arweiniodd at gyflwyno'r hysbysiad.<br>Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio rhestr wirio gorfodi (wedi'i hatodi i'r e-bost). |
| 4.6.11 (iii) Sicrhau bod hysbysiadau FIR IN yn cynnwys yr wybodaeth gywir am yr apêl, a bod prawf o wasanaeth yn cael ei gofnodi. | Ar unwaith | Adolygu'r polisi gorfodi a phwysleisio defnyddio'r FIRIN ar gyfer Cymru. | Mae aelodau'r tîm wedi cael eu hatgoffa i wneud yn si?r eu bod yn defnyddio'r hysbysiadau FIRIN ar gyfer Cymru gyda'r wybodaeth apêl gywir. |
| 4.6.11 (iv) Sicrhau bod camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod ymyriadau yn cael ei unioni | 30/11/25 | Adolygu'r polisi gorfodi i adlewyrchu y cymerir camau gorfodi os na chaiff y cyngor a roddwyd ei weithredu. | Wedi'i drafod â'r tîm. Rydym yn bwriadu cynyddu'r defnydd o FIRINs er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac i beidio â dibynnu ar gyngor yn cael ei weithredu. |
| 4.7.9 (i) Dylai'r awdurdod:<br>Adolygu ei weithdrefnau monitro mewnol dogfenedig i sicrhau bod yr holl weithgareddau perthnasol yn destun monitro cymesur. Dylai hyn nodi maint sampl cynyddol o weithgarwch monitro mewnol, y cyfnod hiraf ar gyfer gwirio awdurdodiadau swyddogion, a chynnwys ymchwiliadau i ddigwyddiadau a gwiriadau cronfa ddata swmpus. Dylid ehangu maint a graddfa'r monitro mewnol yn ymarferol, a hefyd cynnwys gwiriadau awdurdodi cyfnodol, swmp-wiriadau cronfeydd data  ac ymatebion i ddigwyddiadau. | 30/11/25 | Adolygu'r weithdrefn monitro fewnol i adlewyrchu'r cynnydd yn amlder y gwiriadau ansoddol. Bydd gwiriadau'n cynnwys adolygiadau o ymyriadau, ceisiadau am wasanaeth (gan gynnwys digwyddiadau), cwynion am fwyd a chadw cofnodion.<br>Bydd awdurdodiadau swyddogion yn cael eu gwirio'n rheolaidd a dim hirach nag unwaith bob 5 mlynedd.<br>Bydd y daenlen a rannwyd gyda ni yn ystod yr archwiliad yn cael ei defnyddio at ddibenion gwirio a monitro. | Cynnal gwiriadau monitro yn amlach. |

1. Bydd y Cod a ddefnyddir yn berthnasol i amseriad y gwaith o gynnal y rheolaethau perthnasol.